

Holi Hwn a Holi Llall

Mae Sian Gwenllian yn Gyngorydd Sir dros Blaidd Cymru yn Y Felinheli



1. Oed: 53
2. Ymhle cawsoch eich geni?
Cefais fy ngeni yn Nolgellau ond fe symudodd y teulu i 'r Felinheli pan oeddwn yn 7 oed.
3. Ymhle ydych chi'n byw?
Yng nghanol pentref Y Felinheli yn edrych dros Y Fenai.
4. Soniwch am eich teulu?
Bu farw fy ngŵr Dafydd Vernon yn 1999. Mae gen i bedwar o blant sy'n 'bobol ifanc' erbyn hyn, sef Carwyn (20), Trystan (18), Manon (17) a Rhodri (14). Mae 'r ddau hynaf yn astudio yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Mae gennyf ddau frawd, Dylan ac Iwan, sydd hefyd yn byw yn y pentref.
5. Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am fod yn Gyngorydd Sir?
Ceisio helpu pobol efo'u problemau unigol; gweithio ar brosiectau i wella'r pentref a gweithio ar lefel sirol i wneud Gwynedd yn lle da i fyw.
6. Beth ydych chi'n ei gasau fwyaf am fod yn Gyngorydd Sir?
Cwynwrs a phobol negyddol o bob math. Hefyd y ffaith fod olwyn y Cyngor yn troi yn araf iawn weithiau!
7. Beth yw eich camp fwyaf ers cael eich ethol yn Gyngorydd Sir?
Helpu i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau nifer o bobol.
8. Pwy yw eich arwr / arwres?
Fy Nain oedd yn byw ym Mwlchtocyn, Llŷn.
9. Beth yw eich atgof plentyn hapusaf?
Bwyta bechdana siwgrwr gyda ffrindia ym mhen coedan yng Ngherrig yr Afon, coedwig fechan yn Y Felinheli.
10. Beth yw eich ofn mwyaf?
Colli'r weledigaeth
11. Pa sgwarnog ydych chi ar ei ôl ar y funud?
Problemau yn ymwneud â delwedd y pentref. Dwi'n gweithio efo'r heddlu a swyddogion y Cyngor i stopio pobol rhag gadael eu cŵn faeddu ein strydoedd.

Ffion Clwyd Edwards

pi-ar ar ran **Plaid Cymru Gwynedd** 01745 550588 / 07702 048184 / ffion@pi-ar.co.uk